**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/PO/659/25

17 Rhagfyr 2025

Annwyl Peredur

Diolch ichi am eich llythyr.  Mae fy swyddogion mewn cysylltiad agos ag Archwilio Cymru ynglŷn â chwblhau cyfrifon llywodraeth leol ac rwy'n ymwybodol bod nifer o gyfrifon nad ydynt wedi'u cwblhau ar gyfer y flwyddyn 2024-25.  Mae yna rai o'r flwyddyn 2023-24 nad ydynt wedi'u cwblhau ychwaith oherwydd rhesymau penodol a thechnegol iawn.  Mae'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau cyfrifon wedi symud yn ei flaen dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a hynny oherwydd y tarfu yn sgil y pandemig. Rydym ni, Archwilio Cymru a Llywodraeth Leol yn awyddus i sicrhau bod cyfrifon yn cael eu cwblhau yn fwy prydlon.  Y bwriad yw y bydd Cynghorau yn dychwelyd cyfrifon drafft wedi'u cwblhau erbyn 30 Mehefin ac yn eu cwblhau erbyn 31 Hydref ar gyfer 2025-26, sef y dyddiadau disgwyliedig hirsefydlog.

Rwy'n deall bod nifer o faterion sy'n cyfrannu at yr amserlenni hirach presennol ar gyfer paratoi cyfrifon mewn rhai awdurdodau.  Gwelwyd sawl newid cymhleth i safonau cyfrifyddu, gan gynnwys ymdrin â phrisiadau lesoedd ac asedau (yn benodol asedau seilwaith), a olygodd bod timau cyllid wedi cymryd mwy o amser i'w prosesu yn ystod blynyddoedd cyntaf y gofynion newydd hyn. Mewn rhai awdurdodau, rwy'n ymwybodol hefyd fod newidiadau staff ac ymddeoliad aelodau allweddol o dimau paratoi cyfrifon mewn rhai achosion wedi estyn yr amser a gymerir i gyflawni'r gwaith paratoi.  Mae strwythur cyfrifon hefyd yn mynd yn fwyfwy cymhleth mewn rhai meysydd, er enghraifft yn sgil cydgrynhoi cyd-bwyllgorau corfforedig.

Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn deg nodi bod Archwilio Cymru, cyn archwiliadau 2024-25, hefyd wedi wynebu heriau o ran staffio a oedd yn effeithio ar ei berfformiad wrth gwblhau archwiliadau ac ymateb i ymholiadau. Mae'r defnydd o archwilio o bell a hybrid yn hytrach nag archwiliadau llawn a gynhelir ar safleoedd hefyd wedi estyn yr amser i godi ymholiadau ac ymateb iddynt. Rwy'n deall bod datrysiad TG newydd bellach yn cael ei ddefnyddio sy'n helpu'r llif gwybodaeth yn sylweddol.

Mae Archwilio Cymru wedi cyfarfod â chymdeithas Trysoryddion Cymru i drafod yr ystod o faterion. Rwy'n ymwybodol bod parodrwydd cadarnhaol iawn ar y ddwy ochr i leihau'r amser a gymerir i gynhyrchu cyfrifon a chynnal archwiliadau.  Yn ddiweddar, mae Archwilio Cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wedi cynnal dau weithdy wyneb yn wyneb, un yn y De a’r llall yn y Gogledd, gyda staff cyllid sy’n ymwneud â chynhyrchu cyfrifon o ddydd i ddydd. Roedd un o’m swyddogion hefyd yn bresennol. Ystyriodd y gweithdai hyn y materion yn fanylach a chafwyd rhwydweithio da rhwng timau gwahanol awdurdodau lleol gan rannu arferion da a thynnu sylw at sut y gall Archwilio Cymru weithio gydag awdurdodau a’u cynorthwyo.

Mater i awdurdodau lleol yw rheoli’r capasiti, cynllunio olyniaeth a recriwtio staff o fewn eu timau cyllid eu hunain. Mae’r gymuned cyllid llywodraeth leol yn ymwybodol iawn o’r angen i sicrhau gwytnwch yn y rolau pwysig hyn. Yn ddiweddar, mae Cymdeithas Trysoryddion Cymru wedi sefydlu a chyllido cwrs datblygu i annog, er enghraifft, twf y genhedlaeth nesaf o Swyddogion S151. Dylai’r model ffederasiwn y mae Blaenau Gwent a Thorfaen yn ei ddatblygu a’i gymhwyso hefyd gynnig ffordd ymlaen, yn arbennig ar draws cynghorau llai.

Rwy’n ymwybodol bod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth hefyd yn edrych ar opsiynau i symleiddio cyfrifon awdurdodau lleol drwy ei grŵp adrodd gwell ac edrychaf ymlaen at weld effaith y newidiadau hyn yn y dyfodol.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government